

Materion Allanol:

Adroddiad Monitro

Medi 2026



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl.

Mae'r Senedd fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:

www.senedd.cymru

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NS

Tel: **0300 200 6565**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2026**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Materion Allanol:

Adroddiad Monitro

Medi 2026

Awdur:

Madelaine Phillips

Bwriad yr adroddiad monitro hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau o'r Senedd a rhanddeiliaid sydd â diddordeb am ddatblygiadau polisi allweddol sy'n ymwneud â materion allanol a masnach.

Mae'r adroddiad yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 7 Mai 2026 a 18 Medi 2026.





Cynnwys

1. Rhyngwladol	6
Cysylltiadau rhyngwladol.....	6
Datblygu rhyngwladol	7
Ymweliadau gweinidogol.....	8
Datblygiadau o ledled y DU	8
Y DU.....	8
Yr Alban	9
Gogledd Iwerddon.....	10
2. Ewrop.....	11
Y wybodaeth ddiweddaraf o ran yr UE	11
Y cysylltiadau rhwng y DU a'r UE.....	12
Cysylltiadau rhwng Cymru a'r UE.....	14
Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon.....	14
Datblygiadau o ledled y DU	15
Y DU.....	15
Yr Alban	16
3. Masnach.....	17
Masnach Cymru.....	17
Trafodaethau a pholisi masnach y DU.....	17
Datblygiadau o ledled y DU	18
Y DU.....	18
Yr Alban	20
Gogledd Iwerddon.....	21

1. Rhyngwladol

Cysylltiadau rhyngwladol

Mae'r adran hon yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithgarwch cysylltiadau rhyngwladol ar draws Llywodraeth Cymru a'r Senedd.

- **Cyhoeddodd y Prif Weinidog, Rhun ap Iorwerth AS ei dîm gweinidogol** ym mis Mai. O ran cysylltiadau rhyngwladol, cadarnhawyd y cyfrifoldebau a ganlyn:
 - **Prif Weinidog** (*Rhun ap Iorwerth AS*): Hyrwyddo a chynrychioli Cymru gartref a thramor, a chysylltiadau rhyngwladol, gan gynnwys rhwydwaith tramor a chysylltiadau â'r UE.
 - **Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Chydraddoldeb** (*Sioned Williams AS*): Cymru ac Affrica.
 - **Y Gweinidog Cabinet dros Fenter, Cysylltedd ac Ynni** (*Adam Price AS*): Polisi a hyrwyddo masnach ryngwladol, gan gynnwys cydgysylltu materion sy'n ymwneud â Masnach y DU/UE, porthladdoedd rhydd, a pholisi ffiniau.
- Ers dod i'r swydd, mae'r Prif Weinidog wedi gwneud cyfres o **gyhoeddiadau a sylwadau ar sianeli'r cyfryngau cymdeithasol sy'n ymwneud â chysylltiadau rhyngwladol**, gan gynnwys mai 'dyma fydd y llywodraeth fwyaf allblyg a gafodd Cymru erioed'.
- Nid yw Llywodraeth Cymru wedi nodi cynlluniau ar gyfer ei blaenoriaethau rhyngwladol eto. Ym mis Mehefin, dywedodd mewn **ymateb i gwestiwn ysgrifenedig** y bydd yn nodi ei gweledigaeth ar gyfer cysylltiadau rhyngwladol gyda Strategaeth Ryngwladol newydd.
- Ym mis Mehefin, gwnaeth y Prif Weinidog **sylwadau ar y gwrthdaro rhwng yr Unol Daleithiau ac Iran**, gan ddweud ei fod yn gobeithio y byddai'r cytundeb rhwng y ddwy wlad yn darparu sylfaen ar gyfer heddwch parhaol, a bod ailagor Culfor Hormuz mewn modd diogel yn lleddfu rhywfaint o'r pwysau economaidd sy'n cael ei deimlo yng Nghymru.

- Ym mis Gorffennaf, **gwnaeth y Prif Weinidog ddatganiad** drwy sianeli'r cyfryngau cymdeithasol ar y gwrthdaro rhwng Gaza ac Israel, gan nodi bod 1000 diwrnod wedi mynd heibio ers yr hyn a ddisgrifiodd fel gweithredoedd erchyll Hamas ar 7 Hydref 2023, a gweithredoedd hil-laddiad Llywodraeth Israel yn Gaza. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi nodi ei safbwynt ar y gwrthdaro yn ffurfiol ers iddi ddod i rym ym mis Mai, ond mewn ymateb i **gwestiwn ysgrifenedig** dywedodd ei fod yn "parhau yn gadarn yn ein galwadau am ddatrysiad heddychlon a pharhaol rhwng y ddwy wladwriaeth". Cafodd **datganiad barn** ei gyflwyno hefyd gan Gwyn Williams AS.
- Ym mis Medi, llofnododd y Prif Weinidog 'Gytundeb Caerdydd' **gyda Phrif Weinidog yr Alban**, John Swinney MSP. Mae'r cytundeb yn nodi meysydd cydweithredu, gan gynnwys gweithgarwch rhyngwladol.
- Ym mis Medi, cyhoeddodd y Gweinidog Cabinet dros Fenter, Cysylltedd ac Ynni, Adam Price AS, ymgynghoriad ar **fframwaith moesegol** sy'n llywodraethu ymgysylltiad Llywodraeth Cymru â'r sector amddiffyn yn yr hydref.

Datblygu rhyngwladol

Mae'r adran hon yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithgarwch datblygiadau rhyngwladol ar draws Llywodraeth Cymru a'r Senedd.

- Ym mis Mehefin, **trafododd y Senedd** wariant rhyngwladol. Roedd y ddadl yn ymdrin â chysylltiadau rhyngwladol a chyllid datblygu rhyngwladol. Mae'r pynciau hyn wedi cael eu codi drwy gwestiynau ysgrifenedig, gan gynnwys yn benodol ar **raglen Cymru ac Affrica**. Ymatebodd Llywodraeth Cymru y bydd dyraniadau cyllid i'r ffrwd waith a chyfeiriad polisi'r Llywodraeth hon yn y dyfodol yn cael eu hystyried wrth symud ymlaen.
- Ym mis Gorffennaf, **cyhoeddodd Llywodraeth Cymru rodd o £50,000** i Apêl Daeargrynfeydd Venezuela y Pwyllgor Argyfwng Trychinebau, yn dilyn y daeargrynfeydd a ddigwyddodd yn y wlad ym mis Mehefin.
- Ym mis Gorffennaf, **trafododd y Senedd** raglen Cenedl y Noddfa. Cyflwynodd yr Aelodau gwestiynau ysgrifenedig ar y pwnc hefyd. Mewn ymateb i un cwestiwn ysgrifenedig, **dywedodd Llywodraeth Cymru** ei bod wedi ymrwymo i amddiffyn gweledigaeth Cenedl y

Noddfa, a sicrhau bod yr egwyddorion sy'n sail i'r weledigaeth hon wedi'u hymgorffori ar draws polisi ac arfer y llywodraeth.

Ymweliadau gweinidogol

Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg o ymweliadau rhyngwladol a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru.

Gweinidog/Ymweliad	Lleoliad	Dyddiad
<u>Llysgennad Dynodedig y DU i Japan</u>	Cymru	Mehefin 2026
<u>Y Prif Weinidog</u>	Iwerddon	Mehefin 2026

Datblygiadau o ledled y DU

Mae'r adran hon yn tynnu sylw at ddatblygiadau gan lywodraethau a seneddau'r DU, yr Alban a Gogledd Iwerddon mewn perthynas â datblygiad a chysylltiadau rhyngwladol. Mae hyn yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am ymchwiliadau'r pwyllgor.

Y DU

- Ym mis Gorffennaf, cyhoeddwyd Ed Miliband AS yn Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Tramor, y Gymanwlad a Datblygu, yn dilyn penodiad Andy Burnham yn Brif Weinidog a'r ad-drefnu cabinet wedi hynny.
- Ar ymweliad â'r Aifft ym mis Awst, adnewyddodd Stephen Doughty AS, Gweinidog y Dwyrain Canol, y galwadau am fwy o gymorth dyngarol i gyrraedd Gaza.
- Cyhoeddodd grŵp o weinidogion tramor, gan gynnwys y DU, ddatganiad ar y cyd ym mis Medi ar yr ateb dwy wladwriaeth. Cadarnhawyd eu bwriad i gyflwyno cyfyngiadau cenedlaethol a/neu gefnogi cyfyngiadau Ewropeaidd ar fasnach mewn nwyddau gydag aneddiadau sy'n anghyfreithlon o dan gyfraith rhyngwladol. Cyhoeddodd Llywodraeth y DU y bydd yn rhoi'r sancsiynau hyn ar waith.

- Mae'r tabl a ganlyn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ymchwiliadau Senedd y DU sy'n ymwneud â chysylltiadau rhyngwladol:

Pwyllgor	Teitl yr ymchwiliad	Y diweddaraf
Pwyllgor Datblygu Rhyngwladol Tŷ'r Cyffredin	<u>Partneriaeth datblygu'r DU â Nigeria</u>	Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Gorffennaf.
Pwyllgor Cysylltiadau Rhyngwladol ac Amddiffyn Tŷ'r Arglwyddi	<u>Ymgysylltiad y DU â'r system amlochrog</u>	Lansiwyd yr ymchwiliad ym mis Mehefin.
Cyd-bwyllgor ar y Strategaeth Diogelwch Cenedlaethol	<u>Y Strategaeth Diogelwch Cenedlaethol</u>	Ysgrifennodd y Cadeirydd at Lywodraeth y DU yn galw am ragor o wybodaeth am argymhellion yr adroddiad heb eu datrys.
Cyd-bwyllgor ar y Strategaeth Diogelwch Cenedlaethol	<u>Dull y DU o atal ymosodedd Rwsia</u>	Lansiwyd yr ymchwiliad ym mis Mehefin.

Yr Alban

- Yn dilyn etholiadau Senedd yr Alban ym mis Mai, cyhoeddwyd **cabinet newydd Llywodraeth yr Alban**. Mae'r rhestr isod yn amlinellu cyfrifoldebau gweinidogol fel y maent yn ymwneud â chysylltiadau rhyngwladol a masnach.
 - **Prif Weinidog** (*John Swinney ASA*): Cynrychioli'r Alban yn rhyngwladol;
 - **Dirprwy Brif Weinidog** (*Jenny Gilruth ASA*): Y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig;
 - **Y Gweinidog dros Ewrop, Materion Allanol ac Ynni** (*Stephen Gethins ASA*): Materion allanol, Ewrop a'r Undeb Ewropeaidd, gan

gynnwys aliniad, a rhwydwaith rhyngwladol yr Alban a chysylltiadau â'r Alban;

- **Y Gweinidog Busnes a Gwaith Teg** (*Tom Arthur ASA*): Strategaeth a pholisi masnach;
- **Y Gweinidog dros Gydraddoldeb a Datblygu Rhyngwladol** (*Simita Kumar ASA*): Ffoaduriaid, ceiswyr lloches a phobl wedi'u dadleoli, a datblygiad, strategaeth a gweithrediad rhyngwladol.

Gogledd Iwerddon

- Lansiodd Comisiwn Cynulliad Gogledd Iwerddon ei Strategaeth Rhyngseneddol a Rhyngwladol ar gyfer 2026–2030, sef fframwaith ar gyfer 'cryfhau ymgysylltiad â deddfwrfeydd eraill'.

2. Ewrop

Y wybodaeth ddiweddaraf o ran yr UE

Mae'r adran hon yn amlinellu datblygiadau mewn deddfwriaeth berthnasol yr UE.

- Yn **Araith Cyflwr yr Undeb**, cyhoeddodd Arlywydd Comisiwn yr UE, Ursula von der Leyen, gynigion i ystyried gwneud Canada yn 'aelod cyswllt' cyntaf yr UE. Ar hyn o bryd nid oes statws o'r fath a byddai ei greu yn gofyn am newidiadau i gytundebau'r UE a chefnogaeth yr holl aelod-wladwriaethau. Cynigiwyd Cyngor Diogelwch Ewropeaidd hefyd, gyda Llywydd y Comisiwn yn datgan bod 'fformat arweinwyr' wedi cael ei drafod ers tro byd ac y gallai gynnwys partneriaid fel Canada, Norwy, Wcráin, y Deyrnas Unedig, ac eraill.
- Ym mis Gorffennaf 2025, cyflwynodd Comisiwn yr UE **ei gynnig ar gyfer y Fframwaith Ariannol Amlflwydd**. Dyma gyllideb hirdymor yr UE a fydd yn nodi'r gyllideb a'r rheolau ar gyfer rhaglenni ariannu'r UE y mae Llywodraeth y DU wedi dweud ei bod yn dymuno cyd-fynd â hwy. Dywedodd dogfen esboniadol a gyhoeddwyd gan Gyngor yr Undeb Ewropeaidd fod **cytundeb ar y Fframwaith** yn cael ei ystyried yn angenrheidiol erbyn diwedd 2026. Byddai hyn yn caniatáu mabwysiadu deddfau deddfwriaethol yn 2027 ac yn sicrhau bod cyllid yr UE yn cyrraedd buddiolwyr heb ymyrraeth o fis Ionawr 2028.
- Mae Senedd Ewrop a'r Cyngor Ewropeaidd eisoes wedi dechrau gweithio i graffu ar y testunau deddfwriaethol y bydd angen eu gweithredu i roi'r Fframwaith Ariannol Amlflwydd ar waith. Mae'r tabl isod yn tynnu sylw at y cynnydd ar y rheoliadau sy'n debygol o fod o'r diddordeb mwyaf i Gymru a'r DU:

Cynnig deddfwriaethol	Senedd yr UE	Cyngor yr UE	Y camau nesaf
Rhaglen Erasmus+ 2028-2034	<u>Yn aros am benderfyniad y pwyllgor</u> (Diwylliant ac Addysg)	<u>Y Cyngor yn cytuno ar safbwynt rhannol</u>	05/10/2026: Dyddiad dangosol y Cyfarfod Llawn, darlleniad cyntaf
'AgoraEU' 2028-2034	<u>Yn aros am benderfyniad y pwyllgor</u> (Diwylliant ac Addysg/Rhyddid sifil, cyfiawnder a materion cartref)	<u>Y Cyngor yn cytuno ar safbwynt rhannol</u>	Dim dyddiad Cyfarfod Llawn dangosol ar gael
Horizon Europe, 2028-2034	<u>Yn aros am benderfyniad y pwyllgor</u> (Diwydiant, ymchwil ac ynni)	<u>Y Cyngor yn cytuno ar safbwynt rhannol</u>	19/10/2026 Dyddiad dangosol y Cyfarfod Llawn, darlleniad cyntaf
Cronfa Cystadleurwydd Ewropeaidd	<u>Yn aros am benderfyniad y pwyllgor</u> (Diwydiant, ymchwil ac ynni)	<u>Y Cyngor yn cytuno ar safbwynt rhannol</u>	23/11/2026 Dyddiad dangosol y Cyfarfod Llawn, darlleniad cyntaf

Y cysylltiadau rhwng y DU a'r UE

Mae'r adran hon yn amlinellu datblygiadau yn y trafodaethau rhwng y DU a'r UE.

- Ym mis Mehefin, rhoddodd y cyn-Weinidog dros y Cyfansoddiad a Chysylltiadau â'r Undeb Ewropeaidd, Nick Thomas-Symonds AS, araith 10 mlynedd ers refferendwm Brexit. Canolbwyntiodd ar bwysigrwydd y berthynas rhwng y DU a'r UE i faterion fel diogelwch a masnach.
- Ym mis Mehefin, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ystadegau ar gyfranogiad y DU yn rhaglenni'r UE. Mae'r adroddiad yn ymdrin â

Horizon 2020 (2014-20) a phedair blynedd gyntaf Horizon Europe (2021-24).

- Ym mis Gorffennaf, llofnododd y DU a'r UE y **Cytuniad rhwng y DU a'r UE ar Gibraltar**. Mae'r cytuniad yn sefydlu ffin hylifol rhwng Gibraltar a Sbaen, a model tollau wedi'i deilwra, ond nid yw'n effeithio ar sofraniaeth mewn unrhyw ffordd. Daeth y cytuniad i rym dros dro ar 15 Gorffennaf ond nid yw wedi derbyn cadarnhad ffurfiol eto.
- Yn dilyn ymddiswyddiad y Prif Weinidog, Keir Starmer AS, cafodd yr Uwchgynhadledd a gynlluniwyd rhwng y DU a'r UE ym mis Gorffennaf ei **gohirio**. **Siaradodd** Arlywydd y Comisiwn Ewropeaidd, Ursula von der Leyen, â'r Prif Weinidog newydd, Andy Burnham AS, lle cytunwyd y dylai eu timau gydweithio'n agos i baratoi ar gyfer Uwchgynhadledd y DU a'r UE yn ddiweddarach yn y flwyddyn.
- **Penodwyd** Hamish Falconer AS y Gweinidog dros Gysylltiadau Rhynglywodraethol a Chysylltiadau Ewropeaidd, yn dilyn penodiad Andy Burnham a'r ad-drefnu cabinet wedi hynny. Ym mis Medi, **cyfarfu â chomisiynydd masnach yr UE**, Maroš Šefčovič.
- Ers dod i'r swydd ym mis Gorffennaf, mae **wedi cael ei adrodd** bod Andy Burnham eisiau cyrraedd cytundeb Brexit newydd. Fodd bynnag, mae adroddiadau hefyd yn nodi nad yw cynlluniau ar gyfer unrhyw gytundeb Brexit newydd yn debygol o fod yn bwnc ar gyfer yr uwchgynhadledd sydd ar ddod, gyda ffynonellau yn yr UE yn dweud y teimlad yw bod hynny'n rhywbeth ar gyfer diwrnod arall — efallai uwchgynhadledd 2027.
- Ym mis Medi, **croesawodd y Prif Weinidog, Andy Burnham AS Arlywydd Ffrainc, Emmanuel Macron**. Yn ystod y cyfarfod, pwysodd y Prif Weinidog am fwy o gydweithrediad ag Ewrop i gefnogi busnesau Prydain.
- Siaradodd y Prif Weinidog, Andy Burnham AS, ag Arlywydd Christodoulides Cyprus ym mis Medi. **Trafodwyd cysylltiadau'r DU a'r UE** yn ystod llywyddiaeth Cyprus o Gyngor yr Undeb Ewropeaidd, a bwriad y DU i barhau i agosáu at yr UE.

Cysylltiadau rhwng Cymru a'r UE

Mae'r adran hon yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y berthynas rhwng Cymru a'r UE.

- Ym mis Mehefin, cafodd **darn barn** ei gyhoeddi ddeng mlynedd ers refferendwm Brexit gan y Prif Weinidog, Rhun ap Iorwerth AS, ar Wales Online. Fe'i disgrifiodd fel y weithred fwyaf o hunan-ddifrod economaidd mewn hanes modern.
- **Anerchodd y Prif Weinidog lysgenhadon yr UE** i'r DU ym mis Mehefin, gan ddweud bod Llywodraeth Cymru yn "benderfynol o gymryd camau ystyrlon i gryfhau cysylltiadau diwylliannol ac economaidd â'n cymdogion Ewropeaidd". Ym mis Medi, dechreuodd Jukka Salovaara **ei ddyletswyddau** fel Llysgennad yr UE i'r DU, gan gymryd lle Pedro Serrano.
- Ym mis Mehefin, cyhoeddodd y Senedd **ddatganiad barn**, a gyflwynwyd gan Joshua Kim AS, ddeng mlynedd ers i Gymru bleidleisio i ymadael â'r UE.

Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon

Mae'r adran hon yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddigwyddiadau a pholisi sy'n ymwneud â chysylltiadau Cymru ac Iwerddon.

- Gwnaeth y Prif Weinidog, Rhun ap Iorwerth AS, **ei ymweliad tramor cyntaf ag Iwerddon** ym mis Mehefin i fynychu'r **Chweched Fforwm Gweinidogol rhwng Iwerddon a Chymru**. Yn y fforwm, cytunodd y ddwy lywodraeth i hyrwyddo cydweithrediad ar draws ynni glân, addysg, masnach a chydweithredu o ran diplomyddiaeth chwaraeon. Cadarnhaodd y ddwy lywodraeth eu hymrwymiad i **Ddatganiad Cyffredin rhwng Iwerddon a Chymru 2030**.
- Ym mis Gorffennaf, cynhaliodd Cyngor Prydeinig-Gwyddelig ei **gyfarfod uwchgynhadledd rhif 45** a gynhaliwyd gan Brif Weinidog Guernsey, y Dirprwy Lindsay de Saumarez. Thema'r Uwchgynhadledd oedd 'Nurturing Beginnings: Strengthening Early Years and Family Support for Happy, Healthy Childhoods and Lifelong Wellbeing'.

Datblygiadau o ledled y DU

Mae'r adran hon yn tynnu sylw at ddatblygiadau gan Lywodraethau a seneddau'r DU, yr Alban a Gogledd Iwerddon mewn perthynas ag Ewrop a'r Undeb Ewropeaidd. Mae hyn yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am ymchwiliadau'r pwyllgor.

Y DU

- Mae'r tabl a ganlyn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ymchwiliadau Senedd y DU sy'n ymwneud ag Ewrop a'r Undeb Ewropeaidd:

Pwyllgor	Teitl yr ymchwiliad	Y diweddaraf
Pwyllgor Busnes a Masnach Tŷ'r Cyffredin	<u>Perthynas y DU a'r UE ddegawd yn ddiweddarach</u>	Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Mehefin (<u>diweddariad ar adroddiad a gyhoeddwyd yn 2025</u>).
Pwyllgor Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon Tŷ'r Cyffredin	<u>Teithio diwylliannol yn yr UE</u>	Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Mehefin.
Pwyllgor Materion Tramor Tŷ'r Cyffredin	<u>Ailosodiad y DU a'r UE: ailadeiladu partneriaeth strategol mewn cyfnodau ansicr</u>	Y Pwyllgor yn gwneud sylw ar ymateb Llywodraeth y DU
Pwyllgor Materion Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi	<u>Cydweddu deinamig</u>	Mae'r ymchwiliad yn ailddechrau casglu tystiolaeth ym mis Medi.

Yr Alban

- Ym mis Mehefin, **cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban ddatganiad** ddeng mlynedd ers refferendwm Brexit y DU, gan ddweud bod dyfodol yr Alban yn yr Undeb Ewropeaidd fel gwlad annibynnol.
- Ym mis Mehefin, **ysgrifennodd y Gweinidog Materion Tramor, Stephen Gethins ASA, at Weinidog Materion Tramor a Masnach Iwerddon, Helen McEntee MLA**, ar ddechrau Llywyddiaeth Iwerddon ar Gyngor yr Undeb Ewropeaidd.

3. Masnach

Masnach Cymru

Mae'r adran hon yn tynnu sylw at y diweddaraf ar bolisi a gweithgarwch masnach Llywodraeth Cymru.

- Ymatebodd **Llywodraeth Cymru** i'r **ffigurau diweddaraf** ar fuddsoddiad uniongyrchol tramor ym mis Mehefin. Mae ffigurau ar gyfer 2025-26 yn dangos bod Cymru wedi denu 75 o brosiectau buddsoddi tramor a chreu dros 1,500 o swyddi. Dywedodd y Gweinidog Cabinet dros Fenter, Cysylltedd ac Ynni, Adam Price AS, ei bod yn galonogol gweld Cymru yn mynd yn groes i'r duedd fel yr unig ran o'r DU i weld cynnydd mewn prosiectau buddsoddi mewnol. Yn ôl y **ffigurau diweddaraf** rhwng 2024 a 2025 a 2025 i 2026, gostyngodd nifer y prosiectau buddsoddiad uniongyrchol tramor a laniodd yn y DU 25.8%. Cynyddodd nifer y prosiectau yng Nghymru **o 65** i 75 yn yr un cyfnod.
- Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi busnesau i fynychu digwyddiadau allforio tramor drwy gydol y flwyddyn. Mae rhestr lawn o'r **digwyddiadau sydd i ddod** ar gael. Ym mis Hydref bydd MRO Europe yn Amsterdam, sy'n canolbwyntio ar awyrenneg, ac ADIPEC yn Abu Dhabi, sy'n canolbwyntio ar ynni ac ynni adnewyddadwy.

Trafodaethau a pholisi masnach y DU

Mae'r tabl isod yn dangos statws trafodaethau masnach parhaus y DU:

Gwlad	Y diweddaraf	Ymateb Llywodraeth Cymru
Twrci	Pumed rownd o drafodaethau: 15 – 23 Mehefin 2026	Dim datganiad gan Lywodraeth Cymru
Yr Ynys Las	Ailddechreuodd trafodaethau masnach: Hydref 2025	Dim datganiad gan Lywodraeth Cymru
Israel	Sgyrsiau masnach wedi'u hatal: Mai 2025	Datganiad gan Lywodraeth flaenorol Cymru (Gorffennaf 2022)

Datblygiadau o ledled y DU

Mae'r adran hon yn tynnu sylw at ddatblygiadau gan lywodraethau a seneddau'r DU, yr Alban a Gogledd Iwerddon mewn perthynas â masnach. Mae hyn yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am ymchwiliadau'r pwyllgor.

Y DU

- Daeth **trafodaethau masnach Llywodraeth y DU** â Chyngor Cydweithrediad y Gwlff i ben gyda chrynodeb o'r cytundeb masnach wedi'i gyhoeddi ym mis Mehefin. **Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymateb**, gan ddweud mai "gwerth y nwyddau a fasnachwyd rhwng y gwledydd sy'n aelodau o'r GCC a Chymru oedd £1.9bn yn 2025".
- Ym mis Mehefin, gwnaeth Llywodraeth y DU **sylwadau ar** benderfyniad y Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel i ddechrau trafodaethau paratoadol ar ymuno ag Ynysoedd Philipines. Dywedodd fod y DU wedi bod yn gefnogwr cyson o gais Ynysoedd Philipines i ymuno â Chytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel.
- Cyhoeddodd Llywodraeth y DU y **Partneriaeth Technoleg Frontier** rhwng y DU a Japan a'r **Datganiad ar y Cyd ar Gydweithrediad**

Diogelwch Economaidd ym mis Mehefin. Mae'r olaf yn amlinellu aliniad agosach mewn meysydd fel masnach a buddsoddi, cadwyni cyflenwi, a'r system fasnachu ryngwladol sy'n seiliedig ar reolau.

- Mae Llywodraeth y DU **wedi cytuno ar gytundeb masnach rydd** gyda'r Swistir ym mis Gorffennaf, ochr yn ochr â chytundeb ar wahân ar ddefnyddio gatiau electronig y Swistir. Mae'r cytundeb masnach rydd yn canolbwyntio ar wasanaethau ond mae'n cynnwys rhai darpariaethau ar gyfer masnach mewn nwyddau, gan gynnwys cyfradd o 0% o fewn cwota Sefydliad Masnach y Byd y Swistir ar gyfer cig defaid. Ni chyhoeddwyd datganiad gan Lywodraeth Cymru, ond **ysgrifennodd** y Gweinidog Cabinet dros Fenter, Cysylltedd ac Ynni at Bwyllgor y Cyfansoddiad, Cyfiawnder a Materion Allanol.
- O 1 Gorffennaf ymlaen, daeth **mesurau dur newydd** Llywodraeth y DU i rym. Mae'n cyfyngu ar fewnforion dur di-dariff ac yn lleihau cyfrolau cwota cyffredinol 51% o'i gymharu â'r mesur diogelu dur blaenorol. Bydd unrhyw fewnforion uwchlaw'r lefelau hyn yn wynebu tariff o 50%.
- Lansiodd y Swyddfa Dramor, Gymanwlad a Datblygu y **Rhaglen Rhwydwaith Byd-eang** ym mis Awst. Nod y rhaglen yw rhoi mynediad i fusnesau'r DU at arbenigedd diplomyddol Prydeinig i gefnogi cyfleoedd masnach ryngwladol.
- Mae'r tabl a ganlyn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ymchwiliadau Senedd y DU sy'n ymwneud â masnach ryngwladol:

Pwyllgor	Teitl yr ymchwiliad	Y diweddara
Y Pwyllgor Materion Cymreig	<u>Hyrwyddo Cymru ar gyfer Buddsoddi Mewnol</u>	Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Mai
Y Pwyllgor Trafnidiaeth	<u>Datganiad Polisi Cenedlaethol ar gyfer Porthladdoedd</u>	Y Pwyllgor yn ymateb i ymateb Llywodraeth y DU
Y Pwyllgor Busnes a Masnach	<u>Y berthynas economaidd rhwng y DU a'r UDA: 250 mlynedd yn ddiweddarach</u>	Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Gorffennaf
Y Pwyllgor Materion Cymreig	<u>Rôl Cymru wrth amddiffyn y DU</u>	Lansiwyd yr ymchwiliad ym mis Gorffennaf

Yr Alban

- Ym mis Mehefin, gwnaeth Llywodraeth yr Alban sylwadau ar ystadegau gan EY Scotland ar fuddsoddiad uniongyrchol tramor. Dywedodd yr adroddiad fod llifau buddsoddiad uniongyrchol tramor y DU i'r Alban wedi gwanhau yn 2025, gyda niferoedd ei brosiectau'n gostwng 20%. Fodd bynnag, yr Alban oedd y rhanbarth neu'r weinyddiaeth ddatganoledig fwyaf deniadol yn y DU ar gyfer buddsoddiad uniongyrchol tramor y tu allan i Lundain.
- Cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban ei Chynllun Allforio i'r UDA ym mis Mehefin. Mae hyn yn rhan o'i chynllun allforio chwe phwynt, a gyhoeddwyd yn ei rhaglen lywodraeth ym mis Mai.
- Ym mis Gorffennaf, croesawodd y Prif Weinidog, John Swinney AS, y codiad o dariffau UDA ar wisgi yr Alban, a chreu cyfundrefn tariffau 'sero am sero'. Cyhoeddwyd yr eithriad gan yr Arlywydd Trump yn dilyn Ymweliad Gwladwriaethol y Brenin ag UDA ym mis Ebrill. Mae'n dileu tariffau ar fewnforion ac allforion wisgi rhwng y DU a'r UDA.
- Cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban ei Hadroddiad Mewnwelediad Marchnad Strategol yr Alban ac India ym mis Gorffennaf. Dywedodd yr adroddiad y gallai'r bartneriaeth fasnachu fod werth mwy na £3 biliwn y flwyddyn erbyn 2030. Mae'r adroddiad yn ystyried y cytundeb

Economaidd a Masnach Cynhwysfawr rhwng y DU ac India.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei dadansoddiad ar y cytundeb Economaidd a Masnach Cynhwysfawr ym mis Chwefror 2026.

- Cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban **adroddiad masnach mewn gwasanaethau** ym mis Awst. Nododd yr adroddiad fod gwerth enwol cyfanswm allforion gwasanaethau tua £16 biliwn yn 2023.

Gogledd Iwerddon

- Mae Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon wedi **tynnu sylw at gyhoeddi dau ddarn o waith ymchwil annibynnol** ym mis Gorffennaf, yn edrych ar effaith newidiadau diweddar ym mholisi masnach yr UDA ar Ogledd Iwerddon. Mae'n nodi er y gallai mynediad marchnad ddeuol unigryw Gogledd Iwerddon o dan Fframwaith Windsor ddarparu rhywfaint o wydnwch a chyfleoedd sy'n deillio o newidiadau mewn patrymau masnach fyd-eang, mae'n annhebygol y bydd y manteision hyn yn gorbwyso costau economaidd ehangach rhwystrau masnach cynyddol.
- Mae Gweinidog Economi Gogledd Iwerddon, **Dr Caoimhe Archibald** wedi beirniadu **mesurau masnach dur** Llywodraeth y DU, gan ddweud nad ydynt yn gwasanaethu buddiannau busnesau yng Ngogledd Iwerddon.